UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Ymddygiad mewn Ysgolion: Dulliau Diogel ac Effeithiol o Ymyrryd

Chwefror 2010

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

Ymddygiad mewn Ysgolion: Dulliau Diogel ac Effeithiol o Ymyrryd

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn falch i gael y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar 'Ymddygiad mewn Ysgolion: Dulliau Diogel ac Effeithiol o Ymyrryd'.

Mae UCAC yn undeb â 5,000 o aelodau sy'n athrawon a phrifathrawon ysgol, ac yn ddarlithwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng Nghymru. Mae ei brif swyddfa yng Nghymru, ac mae'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fel undeb sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg, rydym yn gresynu at y ffaith nad yw'r ddogfen ymgynghorol hon ar gael yn y Gymraeg.

Adran 1

Yn gyffredinol, rydym yn croesawu'r darpariaethau newydd o dan y Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, a'r ymgais i ddod ag eglurder i sefyllfaoedd sydd hyd yma wedi bod yn amwys ac o ganlyniad, yn gadael ysgolion ac athrawon yn agored i gyhuddiadau.

2. Canllawiau Statudol ar gyfer llywodraethwyr a'i dyletswyddau mewn perthynas â pholisi ymddygiad yr ysgol:

- Mae'r angen i ymgynghori â staff yr ysgol a'r disgyblion wrth i lywodraethwyr lunio Datganiad o Egwyddorion Cyffredinol yn ymddangos yn rhesymol, ac felly hefyd y disgrifiad o natur yr ymgynghoriad hwn
- Croesawn y pwyslais ar drafodaethau gyda'r undebau yn y cyd-destun hwn (2.15, 2.20)

3. Rôl Penaethiaid a Staff Ysgol eraill

- Mae paragraff 3.1 yn sôn am 'ddyletswydd' (*duty*) tra bod gweddill yr adran hon yn cyfeirio at 'rym' (*power*); mae angen bod yn hollol glir pa un o'r ddau sydd dan sylw fan hyn, hynny yw, a oes *gorfodaeth* i reoli ymddygiad disgyblion oddi ar dir yr ysgol, neu'r hawl i wneud os yw hynny'n ymddangos yn addas?
- Croesawn y rhestr o ffactorau y gellid eu hystyried wrth bwyso a mesur a fyddai disgyblu am ymddygiad tu hwnt i dir yr ysgol yn rhesymol, ac yn enwedig y pwyslais ar amddiffyn staff a disgyblion rhag ymddygiad amhriodol a bwlio, gan gynnwys drwy'r cyfryngau a'r dechnoleg 'newydd'

4. Y grym i ddisgyblu: beth mae'n ei olygu

- Croesawn yn fawr y grym statudol sy'n cael ei roi i athrawon, a rhai staff ysgol eraill, i ddisgyblu disgyblion
- Cytunwn mai'r Pennaeth dylai ddynodi pa staff sy'n gallu arddel y grymoedd hyn, a chytunwn â'r angen i ddynodi hynny'n glir ac yn ffurfiol
- 4.12 – a oes angen cyfeirio fan hyn at yr *Independent Safeguarding Authority (ISA)* a/neu'r *Vetting and Barring Scheme*?

5. Cosbi ymddygiad gwael – y defnydd o gosbau

- Dim sylw penodol

6. Cadw disgyblion ar ôl

- Cytunwn mai mater i'r ysgol unigol yw pwy sydd â'r grym i benderfynu cadw disgyblion ar ôl, a bod angen cymryd i ystyriaeth lefelau hyfforddiant y staff hynny, a thrafod gyda'r undebau
- Serch hynny, mae gan UCAC amheuon am y darpariaethau newydd sy'n caniatáu cadw disgyblion yn ôl ar benwythnosau a diwrnodau digyswllt; sylweddolwn mai opsiwn dewisol yw hwn ac nid rheidrwydd ar ysgolion (6.10), a chytunwn yn llwyr y byddai angen cymryd i ystyriaeth materion llwyth gwaith,

telerau ac amodau gwaith, cydbwysedd bywyd/gwaith (6.11), ac mai priod waith staff cynorthwyol ac nid staff addysgu yw goruchwylio sesiynau o'r fath (6.14), yr angen i beidio â cholli cyfleoedd am hyfforddiant a gweithgareddau allgyrsiol (6.16); ond gwelwn beryglon gyda'r rhestr fwled yn 6.17, sef beth yn union yw 'amgylchiadau eithriadol' (*exceptional circumstances*), a sut byddai modd sicrhau 'cytundeb yr aelod staff dan sylw' (*with the agreement of the member of staff concerned*)? Gwelwn beryglon i amodau a thelerau gwaith athrawon gydag *unrhyw* ddisgwyliad iddynt arolygu disgyblion wedi'u cadw ar ôl ar benwythnosau a diwrnodau digyswllt

7. Mynd ag eitemau oddi ar ddisgyblion (gan gynnwys cadw a gwaredu)

- Croesawn yr amddiffynfa i staff sy'n cael ei gynnig o dan y ddeddfwriaeth, a'r esboniad o'r ffactorau sy'n golygu bod athrawon yn gweithredu yn rhesymol ac yn gymesur – hynny yw, o fewn y gyfraith
- Croesawn hefyd y canllawiau ar agweddau eraill o ymdrin ag eitemau sy'n berchen i ddisgyblion

8. Gorchmynion a Chytundebau Rhianta

- Dim sylw penodol

9. Cyfweliadau Ail-integreiddio

- Mae gan UCAC bryderon ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai cynnig cyfweliadau ail-integreiddio ddod yn orfodol; mewn rhai ysgolion gallai cyfweliadau o'r fath fod yn ddigwyddiadau cyson iawn; rhaid ystyried yr oblygiadau ar gyfer llwyth gwaith y pennaeth – nid yn unig y cyfweliad ei hun, ond yr ohebiaeth cyn y cyfweliad, a'r angen i ysgrifennu adroddiad ac i ohebu ar ôl y cyfweliad; mae'r rhain yn ddisgwyliadau trwm a beichus ar ben dyletswyddau arferol penaethiaid

Adran 2: Y Defnydd o Nerth i Reoli neu Atal Disgyblion

Croesawn yn fawr y Canllawiau Drafft (wedi adolygu) yn y maes hwn; mae'r dehongliad hwn o'r gyfraith mewn termau ymarferol ar gyfer ysgolion, y cyngor a'r enghreifftiau o arfer dda, yn wirioneddol werthfawr. Croesawn yn ogystal yr ymgais i ffrwyno'r nifer o gyhuddiadau llwyddiannus yn erbyn staff ysgol mewn perthynas â'r defnydd o nerth.

Mae'r canllawiau'n ymddangos yn glir, yn adeiladol ac yn realistig. Hoffai UCAC ategu'r pwynt am bwysigrwydd hyfforddiant ymarferol i staff o ran defnyddio nerth i reoli neu atal disgyblion, a hefyd o ran ymwybyddiaeth o'r canllawiau hyn a pholisïau a gweithdrefnau'r ysgol.

Adran 3: Sgrinio a Chwilio Disgyblion am Arfau

Mae UCAC yn falch i weld mai grym sydd dan sylw yma ac nid cyfrifoldeb – hynny yw, nad oes rheidrwydd i'w ddefnyddio; croesawn y grymoedd a'r canllawiau ynglŷn â sut i'w defnyddio.

9.6 – yw hwn yn berthnasol i staff colegau hefyd?

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

www.athrawon.com